

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Llên-ladrad Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro

Ymrwymiad

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp – Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwff. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n cael mynediad at Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** wrth iddynt ddysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Cwmpas a Diben y Polisi

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i ysgogi rhagoriaeth ac uniondeb academaidd ymysg dysgwyr, ac i feithrin hyder gyda phawb yr ydym yn ymwneud gyda nhw, gan gynnwys rhieni, cyflogwyr, cyrff dyfarnu a sefydliadau AU. Er mwyn cyflawni hyn, ni fydd y Grŵp yn derbyn llên-ladrad o unrhyw fath.

Diben y polisi hwn yw manylu beth yn union yw llên-ladrad fel camarfer a amheuir ar ran ymgeiswyr, staff y ganolfan, ac unrhyw un arall sydd yn gyfrifol am ddarpariaeth ein cymwysterau, ac am weithredu i gynnal uniondeb ein cymwysterau.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr ar bob rhaglen ddysgu ni waeth beth fo'i ddull neu leoliad astudio.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff mewn swydd sy'n ymwneud ag addysgu, asesu neu gefnogi dysg yn y Grŵp.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'n holl sefydliadau partner ac etholfraint.

Datganiadau Polisi

Diffiniad

Llên-ladrad yw pan mae dysgwr yn defnyddio gwaith neu syniad unigolyn arall a'i gyflwyno fel ei waith gwreiddiol ei hun. Gall y gwaith fod yn waith ysgrifenedig, cerddoriaeth, rhaglen gyfrifiadurol, dawn, darlun, etc.

Adolygiad Rhif:	3
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2025

Gall ffynhonnell y gwaith hwnnw fod yn:

- Waith wedi'i gyhoeddi, e.e. cyfrol, cylchgrawn, drama, ffotograff, paentiad, cerddoriaeth, etc.
- Gwaith heb ei gyhoeddi, e.e. nodiadau'r athro, taflenni dosbarth, gwaith dysgwr arall (naill ai gyda chaniatâd neu hebddo) a deunydd o'r We.
- Gwaith a grëwyd gan ddeallusrwydd artiffisial (AI) - Mae deallusrwydd artiffisial yn cyfeirio at allu cyfrifiadur digidol neu robot a reolir gan gyfrifiadur i gyflawni tasgau sydd fel arfer yn cael eu cysylltu â bodau deallus, ac sy'n gallu cael ei ddefnyddio er mwyn datrys problemau. Mae technoleg AI ar gael i bawb, a gellir ei chyrchu'n rhwydd iawn drwy amrywiaeth o adnoddau rhad neu am ddim, a gellir ei ddefnyddio i ysgrifennu cynnwys yn seiliedig ar ddefnyddiwr yn mewnbynnu gwybodaeth a/neu gwestiynau sylfaenol. Mae angen i bolisiâu a gweithdrefnau gydnabod y gall defnyddio AI gynhyrchu gwaith yn seiliedig ar fewnbynnau'r defnyddiwr, ac ni fydd yn defnyddio gwaith o ffynhonnell arall sy'n bodoli ar-lein. Felly mae hi'n anodd adnabod y math yma o lôn-ladrata drwy ddefnyddio gwiriwr llôn-ladrad confensiynol. Mae angen i'r Coleg gydnabod a gweithredu ar y wybodaeth hon wrth weithio i fynd i'r afael â charmarfer a llôn-ladrad.

Mae defnyddio gwaith rhywun arall yn unrhyw un o'r ffyrdd hyn, heb roi cydnabyddiaeth iddo, yn llôn-ladrata ac yn achos o gamymddygiad academaidd. Weithiau, mae achosion o llôn-ladrad yn anfwriadol o ganlyniad i sgiliau ymchwil gwael a diffyg dealltwriaeth o gonfensiynau cyfeirio. Weithiau, caiff ei wneud yn fwriadol. **Yn y naill achos neu'r llall, nid yw llôn-ladrad yn dderbyniol a dylid mynd i'r afael ag ef.**

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i:

- Bennu gweithdrefnau i'w dilyn pan yr amheuir llôn-ladrad.
- Sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn ystyriol o'r rheiny a bennwyd gan y cyrff dyfarnu, sefydliadau Addysg Uwch a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.
- Hyfforddi'r holl staff perthnasol ynghylch y gweithdrefnau hyn a sut i adnabod llôn-ladrad.
- Sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn ymwybodol o lôn-ladrata ac yn deall sut i'w osgoi yn eu gwaith.
- Cynnig cefnogaeth i ddysgwyr sydd â lefelau isel o sgiliau er mwyn eu galluogi i ddatblygu sgiliau ymchwil ac osgoi llôn-ladrad anfwriadol.
- Cofnodi a monitro pob achos o llôn-ladrad.

Byddwn yn sicrhau bod pob dysgwr, ar bob lefel a math o ddarpariaeth, yn cael ei gyfeirio'n glir at unrhyw sefydliad neu gorff allanol sy'n goruchwylio darpariaeth, safonau, disgwyliadau neu gywiro, megis corff dyfarnu, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu Swyddfa'r Dyfarnwyr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn).

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am:

- Adolygu'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Gosod a monitro systemau adnabod llên-ladrad e.e. Turnitin, gan sicrhau bod y systemau hyn yn ystyriol o'r heriau a achoswyd gan AI.
- Monitro ac ymateb i achosion llên-ladrad o fewn eu hadrannau, gan sicrhau bod gweithdrefnau'r corff dyfarnu a'r Sefydliad Addysg Uwch yn cael eu dilyn bob amser.
- Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol

Mae'r Arweinwyr Ansawdd Uwch yn gyfrifol am:

- Gadw'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn gyfredol.
- Sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu neilltuo i fodloni gofynion y polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau bod gweithdrefnau'r corff dyfarnu a'r Sefydliad Addysg Uwch yn cael eu dilyn bob amser.
- Darparu hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth briodol i staff i sicrhau y gallant ddilyn y polisi. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys gwybodaeth a fydd yn cefnogi staff wrth iddynt wynebu heriau a achoswyd gan AI a datblygiadau technolegol eraill.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.
- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth briodol i ddysgwyr yn ystod y cyfnod cynefino, tiwtorial, a thrwy gydol eu hastudiaethau, er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn y polisi. Bydd y gefnogaeth yn cynnwys helpu dysgwyr i gadw ar flaen yr heriau y maent yn ei hwynebu oherwydd AI a datblygiadau technolegol eraill, er mwyn sicrhau eu bod yn deall y gwahaniaeth rhwng defnydd priodol ac amhriodol o AI, a'r risgiau a goblygiadau posib o'i gamddefnyddio.

Mae'r holl Staff Addysgu a Chefnogi Sgiliau yn gyfrifol am:

- Gweithredu yn unol â'r polisi a'r weithdrefn hon pe byddent yn sylwi ar llên-ladrad.
- Gosod a monitro systemau adnabod llên-ladrad e.e. Turnitin, gan sicrhau bod y systemau hyn yn ystyriol o'r heriau a achoswyd gan AI.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.
- Bod yn ymwybodol o weithdrefnau eu corff dyfarnu perthnasol neu Sefydliad Addysg Uwch.
- Rhoi gwybod i ddysgwyr ynghylch y polisi a'r gweithdrefnau a'u cefnogi nhw i gael unrhyw gymorth.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Fynychu sesiwn sefydlu a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.

- Ymddwyn yn unol â'r polisi hwn, gan gynnwys mynegi unrhyw bryderon i aelod o staff dysgu neu gefnogi, er mwyn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Ystyrir canllawiau'r Sefydliad Addysg Uwch, cyrff dyfarnu a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd perthnasol. Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau er mwyn adlewyrchu Canllawiau'r Cyd-gyngor Cymwysterau – 'Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) Mewn Asesiadau: Amddiffyn Uniondeb Cymwysterau'.

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Grŵp, ysgrifennwyd y polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

Darperir cefnogaeth ac arweiniad ar lôn-ladrad i'n holl ddysgwyr, waeth ym mha iaith maent yn cyflwyno eu gwaith.

Geirdaon

Dolenni i bolisiâu a gweithdrefnau eraill:

Polisiâu

Addysgu, Dysgu ac Asesu
Camarfer a Chamweinyddu
Ansawdd
Rheoli Perthnasoedd â Dysgwyr
Strategaeth Sgiliau
Bwllo ac Aflonyddu Dysgwyr
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gweithdrefnau

Llên-ladrata
Amheuaeth o Gamarfer mewn Arholiadau neu Asesiadau y Cyd-gyngor Cymwysterau
Rheoli Perthnasoedd â Dysgwyr
Bwllo ac Aflonyddu
Datgelu

Sefydliadau Addysg Uwch Perthnasol
Asesiadau ac Apeliadau

Cyfathrebu a Storio

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Dyddiad cymeradwyo:	7 Gorffennaf 2020
Cymeradwywyd gan:	Y Prif Fwrdd
Dyddiad Adolygu Nesaf:	1 Gorffennaf 2025

Rheolwr sy'n Gyfrifol:	Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu
Arweinydd Gweithredol:	Dirprwy Bennaeth, Taith y Dysgwyr ac Ansawdd
Hygyrch i Fyfyrwyr:	Ydy

Adolygiad Rhif:	3
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 2025